# Adroddiad Arolygu ar

**Arthur Jenkins**

**Cartref Preswyl Arthur Jenkins**
**Coed Cae Road Blaenafon**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 9PP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11 Ionawr 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn ag Arthur Jenkins

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Hafod Housing Association Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Awst 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cynnes a chyfforddus. Maent yn derbyn cymorth gan weithwyr gofal y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae gweithwyr gofal yn deall anghenion a hoffterau'r bobl ac yn darparu lefelau priodol o barhad. Mae'r bobl yn fodlon ac yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio offeryn dibyniaeth sy'n cefnogi'r gwaith o nodi faint o staff gofal sydd ei angen ar shifft. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod llesiant y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael ei wella drwy gael mynediad rheolaidd at weithgareddau ysgogol. Mae angen rhai gwelliannau yn amlder goruchwyliaeth staff ac wrth gwblhau dogfennau ysgrifenedig.

## Llesiant

Ar hyn o bryd, mae gan y bobl weithgareddau cyfyngedig ar gael iddynt gymryd rhan ynddynt. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi un gweithiwr gweithgareddau sydd wedi bod yn absennol o'r gwasanaeth ers sawl mis. Ni welsom unrhyw weithgareddau grŵp neu weithgareddau unigolion yn cael eu cynnal yn ystod ein harolygiad. Gwelsom y bobl yn treulio amser naill ai yn gymunol yn gwylio'r teledu, yn cysgu, neu'n treulio amser ar eu pennau eu hunain yn eu hystafelloedd gwely. Gwelsom fod cofnodion gweithgareddau penodol yn wag. Roedd nodiadau gofal dyddiol yn adlewyrchu bod rhai pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn eu mwynhau megis lliwio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y dogfennau'n dangos bod ystod o weithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol ar gael ar yr amlder gofynnol i wella ansawdd y bobl. Er ein bod yn cydnabod bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar allu difyrwyr allanol i ymweld â'r cartref gofal, mae gwerth y bobl sy'n byw mewn amgylchedd ysgogol yn bwysig i gefnogi'r gwelliant parhaus i lesiant y bobl.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan weithwyr gofal sy'n darparu lefelau da o gysondeb. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd meithrin cydberthynas â phobl, ac yn arddangos eu bod nhw'n wybodus am anghenion pobl a'u hoffterau. Gwelsom ryngweithio cefnogol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Siaradodd y bobl yn gadarnhaol am fyw yn y gwasanaeth. Gall y bobl ddewis ym mha le maent yn treulio eu hamser a gwelsom bobl yn treulio eu hamser yn eu hystafelloedd gwely ac yn ardaloedd cymunol y lolfa

Cynorthwyir y bobl i aros mor iach â phosib. Mae bwydlen helaeth yn cael ei darparu, ac mae dewis o brydau bwyd ar gael. Yn gyffredinol, cofnodir pwysau'r bobl fel rhan o'r gwaith monitro arferol a gwblheir gan y gweithwyr gofal. Mae angen rhai gwelliannau ar gyfer dogfennau ysgrifenedig ynglŷn â diweddariadau i gynlluniau personol, gwybodaeth am goluddyn, cofnodion pwysau a phan fydd gofal yn cael ei wrthod. Mae apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu trefnu ar gyfer gwiriadau rheolaidd neu os bydd anghenion unigolyn yn newid. Mae staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu priodol i helpu i gadw eu hunain yn ddiogel ac i hyrwyddo diogelwch parhaus y bobl sy'n byw ac yn ymweld â'r gwasanaeth. Bu cyfyngiadau ar y trefniadau ymweld oherwydd y pandemig i helpu i gadw pobl yn ddiogel. Mae'r bobl yn deall yr angen i gadw'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth mor ddiogel â phosibl. Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn elwa ar y trefniadau ymweld sydd ar waith.

Amddiffynnir pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod gweithwyr gofal yn gwybod am yr hyn i edrych amdano a sut i godi pryderon os byddant yn amau bod llesiant rhywun yn cael ei gyfaddawdu. Mae polisi diogelu cyfredol yn ei le sy'n hysbysu gweithwyr gofal am linellau atebolrwydd ynglŷn ag amddiffyn oedolion yn y cartref. Darperir hyfforddiant diogelu ar gyfer y gweithwyr gofal ac maent yn nodi eu bod yn hapus gyda'r cymorth sydd ar gael.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy’n diwallu eu hanghenion. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu'r hyn sy’n bwysig i unigolion, yn cofnodi eu hoffterau ac yn cynnwys hanesion cymdeithasol manwl. Mae adolygiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn nodi newidiadau yn anghenion a chanlyniadau'r bobl. Pan nodir newidiadau, nid yw hyn bob tro yn arwain at ddiweddaru cynlluniau personol yn gyflym. Gwelsom un cynllun personol nad oedd yn gyfredol. Er bod rhai diweddariadau wedi'u hysgrifennu â llaw wedi’u gwneud, nid oedd y wybodaeth yn y cynllun yn gyfredol ac ni chofnodwyd newidiadau diweddar. Mae angen i'r staff gofal gael mynediad at y wybodaeth fwyaf cyfredol i sicrhau bod darpariaeth gofal a chymorth  yn parhau i fod yn briodol. Mae rhai bylchau yn y dogfennau ysgrifenedig, ac ni roddwyd unrhyw esboniad am y bylchau. Mae archwiliadau rheolaidd o gwympiadau yn cael eu cwblhau, mae risgiau parhaus ynglŷn â chwympiadau yn cael eu nodi a'u lliniaru. Mae dogfennaeth ysgrifenedig effeithiol yn bwysig gan ei bod yn cefnogi gwasanaethau i ystyried ansawdd y gofal a chymorth sy’n cael ei ddarparu. Mae angen rhai gwelliannau mewn dogfennau ysgrifenedig. Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r maes gwella hwn yn cael ei flaenoriaethu.

Mae'r bobl mor iach â phosib. Mae cynlluniau personol yn nodi sut mae pobl yn cael eu cynorthwyo i fod mor iach â phosib. Mae dogfennau ysgrifenedig ar gael sy’n dangos bod y bobl yn cael gweld meddygon teulu a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn rheolaidd pan fydd arnynt eu hangen. Mae bwydlen briodol ac amrywiol ar gael, ynghyd â dewis o fyrbrydau iach. Ar y cyfan, mae goruchwyliaeth o bwysau pobl yn cael ei rheoli'n briodol. Mae angen gwneud rhai gwelliannau i ddogfennau gofal ysgrifenedig, mae hyn yn ymwneud yn benodol ag achosion lle mae pobl yn gwrthod derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, gwybodaeth am fwyd/hylif, cofnodion coluddyn a gweithgareddau. Mae gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd gan reolwyr yn cael eu cynnal sy'n sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi'n briodol. Mae arferion rheoli heintiau a hylendid ar waith ac mae gwiriadau priodol yn cael eu gwneud cyn awdurdodi mynediad i mewn i'r gwasanaeth. Gwelsom y gweithwyr yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ystod ein hymweliad arolygu. Mae hyfforddiant ar bandemig COVID-19 ac arferion rheoli heintiau da yn cael ei gwblhau gan y gweithwyr gofal ac mae ganddynt fynediad at gyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol.

Mae trefniadau meddyginiaeth y gwasanaeth yn effeithiol. Mae aelodau o staff yn cofnodi tymheredd yr ystafell a’r oergell ble mae meddyginiaeth yn cael ei storio bob dydd. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio yn ddiogel. Edrychom ar sampl o siartiau cofnod rhoi meddyginiaeth. Mae'r staff yn llofnodi er mwyn cofnodi bod meddyginiaeth wedi cael ei darparu. Mae goruchwyliaeth o’r trefniadau meddyginiaeth gan reolwyr yn drwyadl a chynhelir archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd. Mae ystyriaeth barhaus o'r hyn sy'n gweithio'n dda a meysydd i'w datblygu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a chynnes. Roedd angen prawf tymheredd a phrawf llif unffordd negatif, ynghyd â phrawf adnabod a rheswm dros ymweld, cyn rhoi awdurdod i ddod i mewn i'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn dilyn canllawiau ynglŷn â threfniadau ymweld diogel. Gwelsom fod gofyn i ymwelwyr ddangos prawf llif unffordd negatif ac ystyrir tystiolaeth o'r canlyniad cyn mynd i mewn. Cedwir gwybodaeth pobl yn gyfrinachol ac yn ddiogel, ac mae ond ar gael i'r rhai sydd angen ei gweld. Mae rhai o'r drysau mewnol i un ardal yn ddiogel ac yn cael eu hagor drwy ddefnyddio ffob. Ar gyfer unigolion sydd heb y galluedd i wneud penderfyniadau gwbl wybodus ynglŷn â risgiau, mae hyn yn sicrhau eu bod nhw’n cael cymorth i fyw mewn amgylchedd diogel. Gwelsom fod cyfarpar priodol ar gael i'r rhai sydd ei angen. Mae gwiriadau gwasanaethu a diogelwch yn digwydd ar gyfnodau rheolaidd. Mae arwyddion priodol yn eu lle o amgylch yr adeilad sy'n cefnogi'r bobl i ymgyfeirio eu hunain mor annibynnol â phosibl. Mae gan y bobl flychau cofion wedi'u gosod yn agos at ddrysau eu hystafelloedd gwely a oedd yn cynnwys eitemau personol. Mae blychau cofion yn helpu pobl sydd ag anawsterau cofio i ddod o hyd i'w hystafelloedd gwely yn fwy annibynnol. Cefnogir pobl i bersonoli eu hystafelloedd gwely. Gwelsom fod rhai pobl wedi dewis rhoi lluniau ar waliau eu hystafelloedd gwely, ac roedd eraill wedi dewis dillad gwely a llenni mewn lliwiau o'u dewis. Gall pobl ddewis ym mha le maent yn treulio eu hamser ac mae digon o le ar gael, sy’n cynorthwyo pobl i dreulio amser yn gymunol ac yn breifat.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ddigonol ar gael am y gwasanaeth. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael sy’n darparu gwybodaeth gyfredol i'r bobl. Mae datganiad o ddiben sy’n darparu gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben yn cael ei adolygu bob blwyddyn o leiaf ac yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny. Mae cael y wybodaeth hon yn cynorthwyo pobl a'u cynrychiolwyr i wneud dewisiadau gwybodus wrth nodi gwasanaeth addas.

Mae goruchwyliaeth o'r gwasanaeth yn digwydd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ymweliadau ansawdd, sy’n dangos bod goruchwyliaeth reolaidd o'r gwaith o reoli'r gwasanaeth. Mae adroddiadau ar gael sy’n dangos pryd a sut y gwnaeth yr ymweliadau hyn ddigwydd. Ymgynghorir â phobl yn rheolaidd fel rhan o'r ymweliadau hyn, mae eu hadborth yn cael ei werthfawrogi ac yn llywio'r gwaith o nodi meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r wybodaeth a geir yn yr adroddiadau hyn yn fanwl ac yn gynhwysfawr, ac yn cofnodi datblygiad parhaus a nodau gwella'r gwasanaeth. Mae cyfarfodydd ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu trefnu. Gwelsom y cymerwyd camau lle mae gofynion penodol wedi’u gwneud er mwyn ymateb yn ffafriol i'r ceisiadau hyn. Mae hyn yn dangos yr ymgynghorir â phobl a bod eu barn yn cael ei cheisio, ei hystyried ac yn ddylanwadol tuag at ddatblygiad y gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd gan gynnwys ystyried yr amser a gymerir gan y gweithwyr gofal i ymateb i glychau galw a dadansoddiad cwympau. Mae systemau priodol ar waith sy’n cefnogi'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol.

Mae staff gofal yn cael eu recriwtio’n ddiogel ac yn cael hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad a’u gwelliant. Mae’r cofnodion a welwyd yn dangos bod y darparwr yn gwneud gwiriadau angenrheidiol wrth recriwtio staff. Mae proses sefydlu ar waith, y mae staff newydd yn ei chwblhau wrth ddechrau eu cyflogaeth. Mae staff gofal yn cael hyfforddiant gorfodol sy’n berthnasol i’w rolau a gwnaethom nodi bod hyfforddiant gloywi ar gael ar gyfnodau rheolaidd. Dadansoddwyd gwybodaeth am ddarparu goruchwyliaeth ar gyfer yr holl weithwyr gofal yn ystod yr arolygiad. Er bod ychydig o'r gweithwyr gofal wedi cael goruchwyliaeth gyda’u rheolwr llinell ar gyfnodau digonol, nid oedd hyn yn wir ar gyfer yr holl staff gofal. Nid oedd y rheolwyr yn gallu esbonio’r rhesymau pam bod rhai bylchau yn yr oruchwyliaeth a ddarparwyd ar gyfer y gweithwyr gofal hyn. Mae'r staff gofal yn elwa ar y ddarpariaeth o oruchwyliaeth reolaidd er mwyn cynorthwyo eu datblygiad a gwelliant parhaus. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd y tîm o staff gofal  a chyfarfodydd ar gyfer y bobl sy’n byw yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Mae'r gweithiwr gweithgareddau wedi'i gyflogi yn y gwasanaeth wedi bod yn absennol o'i swydd ers sawl mis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni ddarparwyd gweithgareddau ar sail grŵp neu unigol. Gwelsom bobl yn eistedd yn gwylio'r teulu neu'n eistedd ar eu pennau eu hunain yn eu hystafelloedd gwely. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig am weithgareddau'n wag. Nid oedd cofnodion gofal dyddiol y bobl yn dangos fel mater o drefn bod y bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella eu teimladau o lesiant. | Newydd |
| 36 | Nid yw sesiynau goruchwylio'r gweithwyr gofal yn cael eu cynnal drwy'r amser ar yr amlder gofynnol er mwyn bodloni cydymffurfedd rheoliadol. | Newydd |
| 59 | Gwelsom ddogfennau ysgrifenedig anghyson mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a ddarperir bob dydd i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/02/2022